

**GRANTIAU CYFALAF TRAFNIDIAETH LEOL LLYWODRAETH CYMRU AB2020-21  
FFURFLEN GAIS****Y GRONFA TRAFNIDIAETH LEOL, CRONFA'R RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH LEOL, Y GRONFA FFYRDD CADARN A'R  
GRONFA TRAWSNEWID CERBYDAU ALLYRIADAU TRA ISEL**

*Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau un ffurflen i bob cynllun. Gall cynllun gynnwys un project neu becynt o brojectau cysylltiedig*

<b>Awdurdod Lleol</b>	Cyngor Bro Morgannwg
<b>Enw'r Cynllun</b>	Yr M4, Cyffordd 34 i Gynllun Rhwydwaith Trafnidiaeth Maes Awyr Caerdydd
<b>Rhif Blaenoriaeth y Cynllun</b>	1
<b>Cynllun Presennol neu Newydd</b>	Presennol
<b>Grant (dewiswch un)</b>	<del>Y Gronfa Trafnidiaeth Leol / Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol / Y Gronfa Ffyrdd Cadarn / Y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Tra Isel</del>
<b>Dyddiad y Cynllun</b>	Dechrau Rhagfyr 2018 Dyddiad Cwblhau Tybiedig Anhysbys ar hyn o bryd
<b>Cyllid sydd ei angen ar gyfer 2020-21</b>	£1,485,000
<b>Enw Cyswllt Rheolwr y Project</b>	Kyle Phillips
<b>Rhif Ffôn</b>	02920 673130
<b>E-bost Cyswllt</b>	<a href="mailto:kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk">kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk</a>
<b>Awdurdodwyd gan (e.e. Pennaeth Cyllid neu'r Gwasanaethau Trafnidiaeth)</b>	Enw: Emma Reed Teitl y Swydd: Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaethau a Thrafnidiaeth Llofnod:

## **DISGRIFIAD O'R CYNLLUN**

Rhowch ddisgrifiad byr o'r cynllun. Os yw eich cais ar gyfer cynllun a fydd yn cymryd mwy na blwyddyn ariannol i'w gwblhau, mae angen disgrifiad arnom o'r cynllun cyfan a'r elfennau i'w cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Dylai ceisiadau am becyn o gynlluniau gynnwys rhestr â chostau o'r projectau cysylltiedig yn nhrefn blaenoriaeth.

Atodwch fapiau lleoliad A4, lluniad(au) project(au) ac unrhyw wybodaeth ategol arall ar wahân.

Cyfeirnod Grid AO: ST060767 51.481464-3.3539870

### **Gorsaf Parcffordd:**

Network Rail yn cwblhau Adroddiad Technegol GRIP 2

Astudiaeth 3/4 o GRIP (gan gynnwys 25% o ymgodiad gan Network Rail - costau 3ydd parti)

Mae pob un yn ddibynnol ar gyfarfodydd amserol â Network Rail/Trafnidiaeth Cymru/LIC

Cam Tri Achos Busnes Llawn WeITAG, gan gynnwys:

- Arolygon ac ymchwiliadau
- Dylunio rhagarweiniol
- Modelu Traffig wedi'i ddiweddarau
- Aseiad Amgylcheddol
- Aseiad Trafnidiaeth ac astudiaethau technegol eraill
- cyfeiriadu tir
- prosesau ymgynghori
- costau cyfreithiol
- paratoi cais cynllunio

**Cyswllt Priffyrdd (llwybrau i'r dwyrain, y gorllewin ac ar hyd y ffordd bresennol):**

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys arfarniad Cam Tri WeITAG ar gyfer darparu gwelliannau priffyrdd o Gyffordd Sycamore Cross ar yr A48 i Gyffordd 34, drwy greu ffordd newydd naill ai i'r dwyrain neu'r gorllewin o Bendeulwyn neu drwy wella'r ffordd bresennol (gan ddibynnu ar Gam 2 Uwch WeITAG). Penderfynir ar yr opsiwn a ffeirir ar ôl cwblhau adroddiad Cam Dau Uwch WeITAG.

Bydd y cyllid y gofynnir amdano'n paratoi'r cynllun ffordd i'r cam dylunio rhagarweiniol lle bydd yn barod ar gyfer cynllunio/gorchmynion.

Bydd hyn yn galluogi cynnal arolygon topograffig, trafndiaeth ac amgylcheddol ychwanegol yn ogystal ag ymchwiliad tir er mwyn cefnogi cynhyrchu'r dyluniad rhagarweiniol hyd at a chan gynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae posibilrwydd y gallai fod angen yr ymchwiliadau archeolegol a thir ar y cam hwn yn y project, o ystyried y peryglon yn yr ardal leol. Bydd hefyd yn cynnwys paratoi'r achos busnes llawn.

Mae'r elfennau allweddol sydd wedi'u cynnwys ar gyfer cam 3 y dewis o ffordd yn cynnwys:

- Arolygon ac ymchwiliadau
- Dylunio rhagarweiniol
- Modelu Traffig wedi'i ddiweddarau
- Asesiad Amgylcheddol
- Asesiad Trafnidiaeth ac astudiaethau technegol eraill
- cyfeiriadu tir
- prosesau ymgynghori
- costau cyfreithiol
- paratoi cais cynllunio

Bydd yr Arfarniad yn cwmpasu'r tasgau y cyfeirir atynt yng Ngham Tri Achos Busnes Llawn WeITAG 2017, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.

Bydd yr astudiaeth yn ystyried yr holl ymrwymadau a geir yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg sy'n cael ei ddatblygu a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol Mabwysiedig.

Bydd ymgynghori (gan gynnwys ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd), cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal drwy gydol yr arfarniad a bydd o leiaf ddau weithdy i rhanddeiliaid yn cael eu cynnal fel rhan o'r gwaith. Bydd y rhain yn helpu i gael cefnogaeth i gyflawni'r cynllun.

Yr allbynnau o'r gwaith fydd adroddiad Cam Tri WeITAG. Bydd y gwaith yn cynnwys adroddiad Asesiad o'r Effaith gyda'r wybodaeth fanwl sy'n ategu'r wybodaeth gryno ym mhrif ddogfen yr Arfarniad.

Amcangyfrifir y bydd costau dichonoldeb a dylunio yn **£800k yn 2020/21** ac yn **£400k yn 2021/22** ar gyfer opsiwn y Briffordd a ffefrir.

Mae costau adeiladu'r opsiynau ffyrdd tua £56.6m ar hyn o bryd (aliniad gorllewinol), £81m (aliniad dwyreiniol) a gwelliannau ar-hyd y ffordd bresennol (i'w gadarnhau – trwy'r astudiaeth Cam Dau Uwch sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd).

Mae'r costau y gwaith Rheilffordd i'w cadarnhau.

Caiff costau GRIP a WeITAG eu cadarnhau a'u hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses adrodd ar ôl iddynt gael eu tendro.

Mae manylion y gwaith hyd yma i'w gweld yn <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Roads/Transport-Studies/M4-J34-to-A48-Transport-Improvements.aspx>

## **ACHOS BUSNES Y CYNLLUN**

### **1. ACHOS STRATEGOL**

**Yr Achos dros Newid**

<p><b>Y Sefyllfa a Materion Presennol ac yn y Dyfodol</b></p> <p>Beth yw'r materion lleol ac ehangach y bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a'r tymor hir? Dylid cynnwys data gwaelodlin lle mae ar gael. Beth fydd yn digwydd os na chymerir camau gweithredu?</p>	<p>Wrth wireddu'r weledigaeth ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, derbynnir y gall cysylltedd trafndiaeth ardderchog fod yn sbardun ar gyfer datblygiadau newydd ac adfywio. Bydd y gwelliannau arfaethedig hyn yn helpu i wasanaethu twf economaidd, pan gaiff ei gynllunio ar y cyd â rhaglenni cymdeithasol ac amgylcheddol Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, trwy ehangu marchnadoedd llafur, datgloi'r safleoedd a nodwyd ar gyfer datblygu, darparu canolfannau deniadol i fusnesau leoli ynddynt, galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, annog clystyrau twf a chrynodrefi gwerth uchel, a lleihau costau ar gyfer cysylltiadau o gyflenwyr i gynhyrchwyr ac i farchnadoedd.</p> <p>Mae'r llwybr cymudo prysur presennol o Groes Cwrlwys ar yr A4050 i Faes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter yn ffordd 40mya a 50mya ac mae'n darparu ar gyfer dros 35,000 o symudiadau cerbyd bob dydd. Mae'r llwybr amgen o'r M4, C34 i Faes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan yn cael ei wasanaethu gan lôn wledig a nifer o bentrefi ac mae'n anaddas fel coridor cymudo i gyrraedd y safleoedd, yn enwedig ar gyfer swm mawr y traffig a nifer y cerbydau nwyddau trwm.</p> <p>Er mwyn lleihau'r effaith ar y cymunedau lleol, darparu'r cysylltedd trafndiaeth sydd ei angen i wasanaethu'r safleoedd cyflogaeth, ac annog newid i ddulliau Teithio Llesol ar gyfer symudiadau lleol, mae angen y seilwaith angenrheidiol i wneud y llwybrau'n ddeniadol ac yn ddiogel. Mae'r seilwaith ffyrdd o groesffordd Sycamore Cross ar yr A48 i Gyffordd 34 ar yr M4 yn is na'r safon ddisgwyliedig ac o ansawdd gwael ac mae angen gwelliannau arno er mwyn dwyn y manteision y mae gweledigaeth y Fargaen Ddinesig yn gofyn amdanynt.</p> <p>Mae'r gwaith ar yr A4226 (Lôn Pum Milltir) a gwblhawyd yn ddiweddar wedi gwella'r ffordd o'r A48 i Weycock Cross, y Barri. Mae'r gwelliant wedi bod o fudd i ddefnyddwyr y ffordd a'r rhai sy'n teithio'n llesol. Bydd y gwelliannau ychwanegol a gynigir fel rhan o'r cynllun hwn yn creu rhwydwaith ffyrdd/teithio llesol llawer gwell o Gyffordd 34 yr M4 i Weycock Cross, y Barri.</p>
---	--

<p><b>Amcanion y Cynllun</b> Beth yw amcanion y cynllun? (Dylai fod hyd at 5 neu 6 amcan a dylent ddilyn y canllawiau CAMPUS - Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella cysylltedd o'r M4 i'r A48 (ac ymlaen i Faes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter).</li> <li>• Cysylltu â'r A4226 (Lôn Pum Milltir) sydd wedi cael ei gwella'n sylweddol ar gyfer defnyddwyr ffyrdd a'r rhai sy'n teithio'n llesol.</li> <li>• Creu ffordd sy'n addas i'r diben, yn wahanol i'r ffordd is-safonol bresennol.</li> <li>• Cynyddu opsiynau trafndiaeth gynaliadwy sy'n gwella hygyrchedd ar hyd y coridor ac yn cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a llesiant;</li> <li>• Sicrhau gwelliannau cynaliadwy i dtrafnidiaeth sy'n annog mwy o weithgarwch economaidd ac sy'n cefnogi buddsoddiad hirdymor;</li> <li>• Cyflwyno mesurau trafndiaeth cynaliadwy sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol.</li> <li>• Adeiladu gorsaf barcfordd wrth Gyffordd 34 yr M4 a fydd yn cynnig gwasanaeth cyflym a dibynadwy i Gaerdydd.</li> <li>• Lleihau nifer y teithiau car un person ar y prif ffyrdd i mewn i ganol Dinas Caerdydd ac allan ohono.</li> </ul>
<p><b>Canlyniadau'r cynllun</b> Beth yw'r canlyniadau penodol y bydd y cynllun yn eu cyflawni?</p>	<p>Mae cyfleoedd i gyflwyno a sefydlu rhwydwaith trafndiaeth gwell a chynaliadwy drwy wella cysylltedd strategol tua'r de o Gyffordd 34 yr M4 i'r A48 a'r tu hwnt er mwyn cyflawni'r amcanion allweddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella cysylltedd â Maes Awyr Caerdydd a safleoedd cyflogaeth strategol yn y rhanbarth.</li> <li>• Cynyddu opsiynau trafndiaeth ar gyfer mynediad strategol a mynediad i gymunedau lleol ac oddi yno.</li> <li>• Gwella gwydnwch y rhwydwaith a diogelwch ar y ffyrdd ar goridau'r M4, yr A48 a'r A4232 a ffyrdd cysylltiol eraill.</li> <li>• Diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol gan gynnwys nodweddion tirweddau ac aneddiadau ardal yr astudiaeth.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau'r effeithiau ar gymunedau a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac iechyd a llesiant.</li> </ul>
<p><b>Cyd-fynd â Pholisïau a Chynlluniau</b> Nodwch ym mha le y mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â pholisïau a chynlluniau lleol megis yr Aseiad Llesiant Lleol, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ac unrhyw bolisïau a chynlluniau cysylltiedig eraill.</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn cael ei hyrwyddo fel coridor a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar gyfer gwelliannau.</p> <p>Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud gwelliannau i fynediad strategol i'r Ardal Fenter, y Maes Awyr a'r Barri (drwy Lôn Pum Milltir/A4226) drwy bolisi MG16 (16) y CDLI. Mae'r cais hwn yn ffurfio rhan o gyfres ehangach o fesurau i wella a hyrwyddo'r coridor o'r maes awyr i'r Barri ac i gysylltu â'r Ddinas-ranbarth ehangach.</p> <p>Mae'r cynllun hwn yn helpu i ddarparu'r seilwaith trafndiaeth sy'n ofynnol ar gyfer cynigion yn y CDLI, Polisi MG 9 – Dyraniadau Cyflogaeth, Polisi MG 10 – Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd.</p> <p>Yr Ardal Fenter a Pholisi MG 11 – tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4, Hensol. Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy sesiynau arddangos cyhoeddus cymunedol ym mis Tachwedd 2013.</p> <p>Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â gwaith WeITAG sy'n cael ei wneud ar gyfnewidfeydd eraill fel yr un a gynigir yng nghoridor Gogledd-orllewin Caerdydd.</p>
<p><b>Tystiolaeth o Gynnwys ac Ymgynghori â'r Gymuned</b> Rhowch grynodedb o sut rydych wedi ymgysylltu â chymunedau lleol ac ymgynghori ar eich cynigion. Sut rydych chi wedi cynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig? Sut mae'r broses hon wedi llywio datblygiad y cynllun?</p>	<p>Fel rhan o'r broses WeITAG, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar gyfer Cam Un a Cham Dau WeITAG.</p> <p>Yn ogystal, sefydlwyd grwpiau adolygu ar gyfer y ddwy astudiaeth. Roedd y grŵp adolygu yn cynnwys nifer o randdeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr cymuned, gweithredwyr trafndiaeth, gweithwyr trafndiaeth proffesiynol o awdurdodau cyfagos a rhai mewnol.</p>

	<p>Mae gwaith Cam Dau Uwch yn cael ei wneud ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn unol ag argymhelliad y grŵp adolygu.</p>
--	--



**Cyd-fynd ag Amcanion Grant**

Nodwch isod sut mae eich cynllun yn cyfrannu at yr amcanion grant perthnasol. Llenwch am y grant rydych yn gwneud cais amdano yn unig a gadewch y llall yn wag.

Enw'r Grant	Amcanion y Grant	Cyfraniad y Cynllun
<b>Cronfa Trafnidiaeth Leol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddi a thwf, yn enwedig ar gyfer Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ardaloedd twf lleol ac ardaloedd adfywio</li> <li>• Lleihau diffyg gweithgaredd economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i safleoedd cyflogaeth</li> <li>• Gwella ansawdd bywyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a gwledig, drwy ddarparu trafndiaeth ddiogel a hawdd ei defnyddio i gyfleusterau a gwasanaethau allweddol</li> </ul>	<p>Bydd y gwelliannau arfaethedig hyn yn helpu i wasanaethu twf economaidd, pan gaiff ei gynllunio ar y cyd â rhaglenni cymdeithasol ac amgylcheddol Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, trwy ehangu marchnadoedd llafur, datgloi'r safleoedd a nodwyd ar gyfer datblygu, darparu canolfannau deniadol i fusnesau leoli ynddynt, galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, annog clystyrau twf a chrynodrefi gwerth uchel, a lleihau costau ar gyfer cysylltiadau o gyflenwyr i gynhyrchwyr ac i farchnadoedd.</p> <p>Mae'r coridor yn gwasanaethu Ardal Gynnyrch Ehangach a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ardaloedd Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Y cynnig yw ystyried gwelliannau i briffyrdd a rheilffyrdd a fydd yn cynnig mwy o gyfleusterau ffyrdd a rheilffyrdd, dewisiadau beicio, gwasanaethau bysus a gwell amserau teithio ar fysis, gan wneud teithio ar fysis yn fwy deniadol. Bydd y cynllun hwn yn cynnig amrywiaeth eang o gysylltiadau yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang trwy ddarparu cymysgedd o gysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy a ffyrdd i'r safleoedd cyflogaeth a'r maes awyr cenedlaethol yn ogystal â thref fawr y Barri a'r cymunedau gwledig. Bydd y cynllun yn dwyn manteision arbennig i'r ardaloedd gwledig cyfagos a gallai gynnig mwy o wasanaethau bysus na fyddent yn ymarferol fel arall.</p> <p>Mae'r ffordd bresennol yn lôn wledig sy'n rhy gul mewn llawer o leoedd i ddau gerbyd fynd heibio i'w gilydd ac mae ymhell yn is na'r safon ddisgwyliedig i fysis deithio arni. Byddai'r gwelliannau arfaethedig yn datrys y broblem hon ac</p>


	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i wasanaethau allweddol</li> </ul>	<p>yn annog gweithredwyr bysus i ddarparu gwasanaethau masnachol lle nad ydynt yn ariannol ymarferol ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd ffordd newydd yn dargyfeirio traffig o'r pentrefi gwledig ac yn gwella ansawdd aer i'r preswylwyr. Bydd y cyfle ar gyfer trafndiaeth teithwyr a thrafnidiaeth gynaliadwy yn lleihau'r angen i ddefnyddio ceir gydag un person yn unig ynddynt ac felly'n lleihau allyriadau.</p> <p>Byddai'r gwelliannau'n cynnig llwybrau bysus uniongyrchol a diogel i ganol y dref, yr Ardal Fenter a'r maes awyr, gan gysylltu cymunedau'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn gwella mynediad i gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol.</p>
<b>Gronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella dibynadwyedd amserau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus</li> <li>Lleihau amserau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus</li> <li>Cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol</li> </ul>	Dd/b
<b>Cronfa Ffyrdd Cadarn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mynd i'r afael â tharfu ar y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i dywydd garw</li> <li>Gwella perfformiad y rhwydwaith priffyrdd trwy wella dibynadwyedd teithiau ac amserau teithiau i annog pobl i newid i drafnidiaeth gynaliadwy.</li> </ul>	Dd/b
<b>Cronfa Drawsnewid Cerbydau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu seilwaith codi tâl ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat</li> </ul>	Dd/b

<p><b>Allyriad Tra Isel</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mannau gwefru cerbydau trydan – yn benodol mewn ardaloedd trefol lle mae modd cefnogi amrywiaeth eang o anghenion gwefru cerbydau trydan</li> <li>• Darparu Cerbydlu Gwyrdd</li> </ul>	
---------------------------------	---	--

## 2. ACHOS TRAFNIDIAETH

### Cyfraniad at Nodau Llesiant

Rhaid i gynlluniau trafndiaeth geisio sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant. Rhowch grynodedb o effeithiau'r cynllun ar y nodau llesiant. Dylai hyn gael ei lywio gan asesiadau effaith statudol ac anstatudol y cynllun.



Nod Llesiant	Effaith (dewiswch un ar gyfer pob nod)
Cymru lewyrchus	Cadarnhaol
Cymru gydnherth	Cadarnhaol
Cymru iachach	Cadarnhaol
Cymru fwy cyfartal	Cadarnhaol
Cymru o gymunedau cydlynus	Cadarnhaol
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cadarnhaol
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cadarnhaol

**Gwerth am Arian**

Esboniwch pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod y costau wedi'u cadw mor isel â phosibl ac i fesur a fydd y cyllid y gofynnir amdano yn rhoi gwerth am arian. Dylid cynnwys y Gymhareb Buddion/Cost (CBC) os yw'n hysbys:

Mae pob gwaith a arweinir gan ymgynghorwyr yn cael ei dendro ar Gwerthwchi Gymru, sy'n sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni a bod pob cais yn cael ei asesu a'i ddyfarnu ar sail meini prawf asesu trylwyr.

Rhoddodd adroddiad Cam 2 WeITAG y Gymhareb Buddion/Cost ganlynol ar gyfer y 3 opsiwn:

Llwybr y Briffordd i'r Dwyrain – 2.7

Llwybr y Briffordd i'r Gorllewin – 3.7

Gorsaf Barcfordd wrth Gyffordd 34 yr M4 – i'w chadarnhau fel rhan o GRIP 3 ac astudiaeth Cam 3 WeITAG

Mae'r Gymhareb Buddion/Cost ar gyfer gwelliannau i'r briffordd bresennol heb ei chadarnhau eto. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy adroddiad Cam Dau Uwch, ac adroddir am y gwaith hwn yn fuan.

**Asesiad o'r Effaith**

Rhowch grynodeb o effeithiau disgwylidig y cynllun, pwy y byddant yn effeithio arnynt a sut, ynghyd â thystiolaeth ategol ansoddol/meintiol allweddol. Dylid ystyried yr effeithiau a nodir isod bob amser, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gall effeithiau eraill fod yn berthnasol. Gall effeithiau fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral, a dylent ystyried pob defnyddiwr gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Nod Llesiant	Effeithiau	Sut mae'r cynllun yn lleihau effeithiau negyddol ac yn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf?
<p><b>Cymru lewyrchus</b> <i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y cyfyngiadau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth,</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newidiadau mewn cynhyrchiant: argaeledd gweithlu addas ar gyfer cyflogwyr, a newidiadau mewn effeithiau cydgrynhoad.</li> <li>Costau trafndiaeth: costau ariannol a delir gan y rhai sy'n teithio e.e. costau gweithredu cerbydau, tollau, a ffioedd trafndiaeth gyhoeddus.</li> <li>Damweiniau: cost damweiniau.</li> <li>Tir: a yw'r cynllun yn lleihau swm y</li> </ul>	<p>Bydd y gwelliannau arfaethedig hyn yn helpu i wasanaethu twf economaidd trwy ehangu marchnadoedd llafur, datgloi'r safleoedd a nodwyd ar gyfer datblygu, darparu canolfannau deniadol i fusnesau leoli ynddynt, galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, annog clystyrau twf a chrynodrefi gwerth uchel, a lleihau costau ar gyfer cysylltiadau o gyflenwyr i gynhyrchwyr a marchnadoedd.</p> <p>Bydd gwella mynediad i Ardaloedd Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan yn galluogi cysylltiadau rhyngwladol rhagorol, gan gefnogi mewnfuddsoddi a thwristiaeth.</p> <p>Comisiynwyd Peter Brett gan Lywodraeth Cymru i ystyried buddion economaidd ehangach darparu cysylltiadau trafndiaeth newydd i'r maes awyr, Ardal Fenter Sain Tathan a'r cymunedau ehangach, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Defnyddiwyd yr adroddiad hwn i lywio'r cynigion.</p> <p>Gan fod 312.9 o hectarau net o dir wedi'u nodi ar gyfer safleoedd cyflogaeth ar y coridor hwn, mae'n rhan hanfodol o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd i alluogi gwireddu ei gweledigaeth a'i dyheadau i gynyddu'r Gwerth Ychwanegol Crynswth yn sylweddol. O ganlyniad, bydd y coridor hwn yn effeithio ar amrywiaeth eang o bobl yng Nghymru a'r tu hwnt sy'n gweithio yn yr ardal neu'n ymweld â hi, neu'n defnyddio'r maes awyr.</p> <p>Unwaith bod y safleoedd cyflogaeth ar waith, bydd angen teithio'n llesol, gwneud defnydd gwell a darparu priffyrdd newydd er mwyn lliniaru'r effaith y bydd y teithiau ychwanegol yn ei chael ar y rhwydwaith.</p> <p>Bydd creu Gorsaf Barcfordd yn gwella amserau teithio i mewn ac allan o ganol Dinas Caerdydd ar drên ac yn lleihau nifer y teithiau mewn car lle mae un person yn unig ynddo. Bydd hyn hefyd yn lleihau allyriadau nwyon niweidiol ac yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon.</p>

<p><i>gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a grëir trwy sicrhau gwaith boddhaol.</i></p>	<p>tir amaethyddol? A yw'n rhyddhau safleoedd i'w datblygu?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau cyfalaf: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat o'r cynllun ei hun ac o'r effeithiau</li> <li>• Costau refeniw: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat, ac i ddefnyddwyr o'r cynllun ei hun ac o'r effeithiau</li> <li>• Newidiadau i'r amser teithio: ar draws pob dull yr effeithir arno ar gyfer defnyddwyr y cynllun a rhai</li> </ul>	
---	--	--

	<p>nad ydynt yn ei ddefnyddio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau i ddibynadwye dd amser teithiau: newidiadau yn amrywiad amserau teithio rhwng adegau'r dydd a rhwng teithiau a wneir ar yr un pryd bob dydd.</li> <li>• Economi leol: sut mae'r cynllun yn effeithio ar y sectorau yn yr economi leol?</li> <li>• Mynediad i wasanaethau: effaith ar deithiau i wasanaethau allweddol fel cyfleusterau iechyd, ysgolion</li> <li>• Mynediad i gyflogaeth:</li> </ul>	
--	---	--



	<p>nifer y swyddi mae pobl yn gallu eu cyrraedd a beth yw'r amser teithio</p>	
<p><b>Cymru gydnerth</b> <i>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sŵn: a oes unrhyw un yn sylwi ar newid mewn lefelau sŵn</li> <li>• Bioamrywiaeth: a oes effaith ar fywyd gwylt a nifer y rhywogaethau</li> <li>• Amgylchedd dŵr: a oes effaith ar gyrsiau dŵr</li> <li>• Gwerthoedd opsiynau a dim defnydd: a yw'r cynllun yn darparu dewisiadau amgen ar gyfer teithiau cyfredol ac a yw'n newid gwydnwch y</li> </ul>	<p>Bydd y cynllun hwn yn cynnig amrywiaeth eang o gysylltiadau yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang trwy ddarparu cymysgedd o gysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy a ffyrdd i'r safleoedd cyflogaeth a'r maes awyr cenedlaethol yn ogystal â thref fawr y Barri a'r cymunedau gwledig.</p> <p>Bydd yr Orsaf Barcfordd yn cynnig ffordd arall o deithio i ganol dinas Caerdydd a byddai'r ffordd newydd neu'r gwelliannau ffordd yn creu mwy o wydnwch ar y rhwydwaith priffyrdd.</p>

	system drafndiaeth	
<p><b>Cymru iachach</b> <i>Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o lesiant corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgarwch corfforol: swm y cerdded, y beicio a mathau eraill o ymarfer corff a wneir gan bobl</li> <li>Damweiniau: nifer a difrifoldeb anafiadau</li> <li>Diogelwch: pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo</li> <li>Ansawdd teithio: er enghraifft, cysur y cerbyd a chyfleusterau cyrchu gwybodaeth</li> <li>Ansawdd aer: a oes newidiadau yn ansawdd yr aer</li> </ul>	<p>Fel rhan o unrhyw waith i wella'r priffyrdd, mae elfen Teithio Llesol yn cael ei hyrwyddo i annog pobl i gerdded a beicio. Bydd hyn ynddo'i hun yn annog teithiau iachach a mwy egniol a bydd hefyd yn cynnig cyfleuster hamdden i nifer mawr y rhedwyr ffordd sy'n ymarfer ar lwybrau presennol yr ardal.</p> <p>Bydd y gwelliannau i'r priffyrdd yn creu mwy o le ar y ffyrdd, a bydd hefyd yn cynnig amserau teithio gwell ar fysis, gan wneud teithio ar fysis yn fwy deniadol, yn ogystal â darparu dewis rheilffordd yng Nghyffordd 34, a allai leihau swm y drafndiaeth ffordd ar hyd coridor yr M4.</p> <p>Byddai'r Orsaf Barcfordd, gwelliannau Teithio Llesol a darparu dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy (trenau a bysus) yn cyfrannu at leihau allyriadau niweidiol, yn helpu i ymateb i'r argyfwng presennol o ran yr hinsawdd ac yn gwella ansawdd yr aer.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseiad o'r Effaith ar Iechyd</li> </ul>	
<p><b>Cymru fwy cyfartal</b> <i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fforddiadwydd: a oes unrhyw newid i'r costau teithio sy'n cael eu talu gan ddefnyddwyr</li> <li>• Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</li> </ul>	<p>Mae cost gynyddol trafndiaeth yn golygu bod llawer o aelwydydd yn cael anhawster fforddio bod yn berchen ar gar a'i gynnal. Mae darparu gwell trafndiaeth gyhoeddus a dewisiadau cerdded a beicio yn golygu bod teithio'n fwy fforddiadwy i rai rhannau o'r gymdeithas, yn enwedig y rhai ifanc a'r rhai hŷn yn ein cymdeithas.</p>
<p><b>Cymru o gymunedau cydlynus</b> <i>Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel a</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwahanu: a yw unrhyw grwpiau o bobl yn cael eu gwahanu oddi wrth eraill neu gyfleusterau y maent yn eu</li> </ul>	<p>Gwella mynediad i gyfleusterau addysg ac iechyd i bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd, gan gynnwys y rhai sydd heb ddefnydd o gar. Mae gwelliannau i seilwaith trafndiaeth yn rhan o nod y rhanbarthau i'w wneud yn fwy deniadol i ymwelwyr, gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth a hyrwyddo dulliau trafndiaeth cynaliadwy eraill. Gyda gwelliannau i fannau croesi i gerddwyr a beicwyr, yn benodol rhwng Pendeulwyn, yr A48 ac ymlaen i'r Barri.</p>

<p><i>chydgysylltiedig.</i></p>	<p>defnyddio'n rheolaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseiad o'r effaith wledig</li> </ul>	
<p><b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b> <i>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tirwedd: a oes effaith weledol neu arall ar y dirwedd</li> <li>• Treflun: a oes effaith weledol neu arall ar y treflun</li> <li>• Amgylchedd hanesyddol: a oes unrhyw newidiadau mewn ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol</li> <li>• Aseiad o'r effaith ar y Gymraeg</li> </ul>	<p>Byddai unrhyw ffordd newydd yn effeithio ar y dirwedd bresennol. Fodd bynnag, gellid lliniaru hyn trwy ddarparu cysylltiadau trafndiaeth gwell trwy nifer o bentrefi gwledig.</p> <p>Bydd unrhyw effeithiau hanesyddol neu archeolegol yn cael eu hystyried fel rhan o adroddiad Cam 3 WeITAG.</p> <p>Mae'r cynigion yn gwella mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd – y porth rhyngwladol i Gymru.</p>
<p><b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nwyon tŷ gwydr: a oes newid o ran swm y nwyon tŷ gwydr sy'n</li> </ul>	<p>Ystyrir bod y safleoedd cyflogaeth yn y coridor hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd a'i gweledigaeth a'i dyheadau i gynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth yn sylweddol ac felly bydd yn effeithio ar amrywiaeth eang o bobl yng Nghymru a'r tu hwnt sy'n gweithio yn yr ardal neu'n ymweld â hi.</p>

<p><i>Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant bydeang a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<p>cael eu hallyrru</p>	<p>Wrth baratoi ar gyfer mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol, cyflogwyd Capita Symonds gan y Cyngor i gynnal astudiaeth o gyffyrdd penodol sy'n nodedig am fod yn fannau problemus. Gellir darllen yr astudiaeth yn:</p> <p><a href="https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/planning_policy/Planning-Policy.aspx">https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/planning_policy/Planning-Policy.aspx</a></p> <p>Mae'r astudiaeth hon yn nodi bod y rhan fwyaf o'r cyffyrdd eisoes yn rhy brysur neu y byddant yn rhy brysur ar ddiwedd y cynllun. Felly, bydd unrhyw liniaru rhagweithiol i leihau'r angen i deithio mewn cerbyd modur yn helpu i symud pobl, yn ogystal â'r gwelliannau a fydd yn cael eu gwneud fel rhan o'r datblygiadau.</p>
---	-------------------------	--

### 3. ACHOS RHEOLI

A ellir cyflawni'r cynllun? Beth yw'r risgiau?

Rhaid darparu cynllun project sy'n nodi amserlenni ar gyfer gweithgareddau a cherrig milltir allweddol ar gyfer pob cynllun sy'n briodol i'r raddfa, y cymhlethdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Pan fo cyfnodau allweddol/cerrig milltir wedi'u cyrraedd/cwblhau, nodwch y dyddiad lle bo'n berthnasol. Dylid darparu o leiaf y canlynol lle maen nhw'n berthnasol i'r cynllun: gwybodaeth am y dyluniad; amseru prosesau statudol/caniatâd cynllunio; caffael tir; caffael; adeiladu; ac agor a chwblhau'r cynllun.

Rhaid cynnwys gwybodaeth am risgiau i fesurau cyflawni a lliniaru sydd ar waith neu yn yr arfaeth.

Mae Arcadis Consultants yn ymgymryd ag astudiaeth Cam 2 Uwch WeITAG ar hyn o bryd. Cyn symud ymlaen i astudiaeth Cam 3 WeITAG, bydd angen ymgynghori ar astudiaeth Cam 2 Uwch a chael y gymeradwyaeth angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i gam nesaf WeITAG.

Mae posibilrwydd y gallai fod angen yr ymchwiliadau archeolegol a thir ar y cam hwn yn y project, o ystyried y peryglon yn yr ardal leol.

Cefnogaeth y cyhoedd i'r cynllun – caiff gwaith asesu buddion economaidd ehangach Peter Brett ei ddefnyddio i hyrwyddo'r ymyriad. Bydd cyfathrebu yn elfen allweddol er mwyn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau a gaiff eu defnyddio i lywio'r cynigion.

Bydd y llwybrau a nodir yn cynnwys cymryd tir posibl i alluogi adeiladu ffordd. Ceisir cyngor cyfreithiol a rhoddir y gweithdrefnau ar waith yn unol â hynny.

Bydd cyfathrebu â Network Rail/Trafnidiaeth Cymru o ran y broses GRIP yn ystyriaeth allweddol. Bydd angen ymgysylltu'n gynnar.

**4. ACHOS ARIANNOL****Proffil gwariant ariannol**

£000oedd, prisiau Alldro (gros y grant / cyfraniadau a ddangosir ar wahân isod)

	<b>Cyn 2020/21</b>	<b>2020/21 (rhagamcanol)</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>	<b>2023/24</b>	<b>Yn ddiweddarach</b>	<b>Cyfanswm</b>
Arolygon							
Dylunio – GRIP a WeITAG		<b>1,485,000</b>					
Prynu Tir							
Gwaith Codi Adeiladau							
Adeiladu							
Rheoli Projectau							
Monitro a Gwerthuso							
Hyrwyddo							
<b>CYFANSWM GROS</b>		<b>1,485,000</b>	<b>I'w gadarnhau fel rhan o Gam 3 WeITAG</b>				
Swm yr arian cyfatebol, y cyfraniad canrannol a'r ffynhonnell(au) ariannu (nodwch enw'r sefydliad)							

CYFANSWM NET		1,485,000	I'w gadarnhau fel rhan o Gam 3 WeITAG				
--------------	--	-----------	---	--	--	--	--



**Proffil Gwariant Chwarterol**

(Dylid cynllunio gwariant mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ariannol i sicrhau hyder o ran gwariant llawn. Dylai gwariant a gynllunnir ar gyfer chwarter 4 gael ei gyfyngu i leihau'r risg o danwario)

	<b>Gwariant Rhagamcanol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020-21 (mewn £000oedd)</b>			
	<b>Chwarter 1</b>	<b>Chwarter 2</b>	<b>Chwarter 3</b>	<b>Chwarter 4</b>
Arolygon				
Dylunio – GRIP a WeITAG	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>
Prynu Tir				
Gwaith Codi Adeiladau				
Adeiladu				
Rheoli Projectau				
Monitro a Gwerthuso				
Hyrwyddo				
<b>CYFANSWM GROS</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>
Swm yr arian cyfatebol, y cyfraniad canrannol a'r ffynhonnell(au) ariannu ( <i>nodwch enw'r sefydliad</i> )				
<b>CYFANSWM NET</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>	<b>371,250</b>

## 5. ACHOS MASNACHOL

Sut caiff y cynllun ei gaffael? Beth yw nifer a phrofiad y cyflenwyr tebygol? Beth yw'r trefniadau cytundebol allweddol; beth yw hyd y contract?

Mae Arcadis Consultants yn ymgymryd ag astudiaeth Cam 2 Uwch WelTAG ar hyn o bryd. Cyn symud ymlaen i astudiaeth Cam 3 WelTAG, bydd angen ymgynghori ar astudiaeth Cam 2 Uwch a chael y gymeradwyaeth angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i gam nesaf WelTAG.

Bydd y Cyngor yn contractio ymgynghorwyr i gyflawni arfarniad Cam Tri WelTag ar gyfer darparu gwelliannau priffyrdd o Gyffordd Sycamore Cross yr A48 i Gyffordd 34 yr M4 ac i fynd drwy broses GRIP 3/4 a WelTAG ar gyfer yr Orsaf Barcfordd.

Bydd y contract hwn yn cael ei osod yn unol â Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog y Cyngor yn ogystal ag yn unol â rheolau caffael.

## MONITRO A GWERTHUSO

A oes cynllun monitro a gwerthuso wedi'i baratoi?

Os oes, rhowch fanylion isod neu atodwch ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth. Beth yw'r data sylfaenol a'r targedau perthnasol?

Bydd cynllun monitro a gwerthuso yn cael ei lunio fel rhan o gam cyflenwi unrhyw broject a nodir yn y dyfodol.

A oes unrhyw waith monitro neu werthuso eisoes wedi'i wneud?

Os oes, rhowch fanylion isod neu atodwch ddogfennau perthnasol i'r cais hwn fel tystiolaeth.